OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2012 Rhif 2729 (Cy.292)

PYSGODFEYDD MÔR, CYMRU

Gorchymyn Gweithrediadau Llusgrwydo Cregyn Bylchog (Dyfeisiau Olrhain) (Cymru) 2012

Gwnaed - - - -	*30 Hydref 2012*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*31 Hydref 2012*
Yn dod i rym - -	*1 Tachwedd 2012*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 5(1) o Ddeddf Pysgodfeydd Môr 1968(**1**) ac sydd bellach wedi eu breinio(**2**) ynddynt hwy.

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Gweithrediadau Llusgrwydo Cregyn Bylchog (Dyfeisiau Olrhain) (Cymru) 2012 a daw i rym ar 1 Tachwedd 2012.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cregyn bylchog" ("*scallop*") yw pysgod cregyn o rywogaeth Pecten maximus;

mae i "Cymru" yr ystyr a roddir i "Wales" yn adran 158 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006(**3**);

(**1**) 1968 p.77. Diwygiwyd adran 5(1) gan Ddeddf Terfynau Pysgodfeydd 1976 (p.86), adrannau 4(2), 5 a 9(1), Atodlen 1, paragraff 3(1) ac Atodlen 2, paragraff 17(1), Deddf Pysgodfeydd 1981 (p.29), adran 24(2) a Deddf Cyfiawnder Troseddol 1991 (p.53), adran 17(3), Atodlen 4, Rhan III ac fe'i diwygiwyd ymhellach gan O.S. 1999/1820, erthygl 4, Atodlen 2, Rhan I, paragraff 48(1) a (2). Gweler adran 19 o Ddeddf Pysgodfeydd Môr 1968 i gael diffiniad o "the Ministers"; diwygiwyd y diffiniad o "the Ministers" yn adran 19 gan O.S. 1999/1820, erthygl 4, Atodlen 2, Rhan I, paragraff 48(1), (5)(a), (b), (c)(i) a (ii) a (d).

(**2**) Yn rhinwedd erthygl 2(a) o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo, trosglwyddwyd y swyddogaethau a oedd yn arferadwy o dan adran 5 o Ddeddf 1968 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru (fel y'i cyfansoddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (p.38)) i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru ar yr amod bod y swyddogaethau o dan adran 5 sy'n ymwneud ag adnabod a marcio cychod pysgota yn arferadwy gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn gydredol ag unrhyw un o Weinidogion eraill y Goron y maent yn arferadwy ganddo. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(**3**) 2006 p.32. Diwygiwyd adran 158(1) gan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (p.23), adran 43(1) a (2).

ystyr "derbynnydd enwebedig" ("*nominated receiver*") yw'r corff a enwebir gan Weinidogion Cymru o bryd i'w gilydd i gael yr wybodaeth ofynnol wedi ei throsglwyddo drwy ddyfais olrhain yn unol â'r Gorchymyn hwn;

ystyr "dyfais olrhain" ("*tracking device*") yw dyfais a all drosglwyddo'r wybodaeth ofynnol;

mae "llusgrwyd cregyn bylchog" ("*scallop dredge*") yn cynnwys unrhyw gyfarpar ac iddo ffrâm anhyblyg yn enau, a lusgir drwy'r dŵr ac a weithgynhyrchir, a addesir, a ddefnyddir neu y bwriedir ei ddefnyddio at ddiben pysgota am gregyn bylchog;

mae i "llythrennau porthladd" yr ystyr a roddir i "port letters" yn rheoliad 1 o Reoliadau Llongau Masnachol (Cofrestru Llongau) 1993(**4**);

ystyr "person sydd â gofal" ("*person in charge*"), mewn perthynas â chwch pysgota Prydeinig, yw perchennog, meistr neu siartrwr, os oes un, y cwch pysgota Prydeinig neu asiant unrhyw un ohonynt;

mae i "rhif porthladd" yr ystyr a roddir i "port number" yn rheoliad 1 o Reoliadau Llongau Masnachol (Cofrestru Llongau) 1993;

ystyr "WGS 84" ("*WGS 84*") yw System Geodesig y Byd a ddiwygiwyd ym 1984 ac a ddiwygiwyd ymhellach yn 2004; ac

ystyr "yr wybodaeth ofynnol" ("*required information*") yw'r wybodaeth a nodir yn erthygl 5.

Rheoleiddio gweithrediadau llusgrwydo cregyn bylchog

3. Yn ddarostyngedig i erthygl 4, rhaid i unrhyw gwch pysgota Prydeinig sydd â llusgrwyd cregyn bylchog arno—

(a) bod â dyfais olrhain wedi ei gosod ar y cwch hwnnw; a

(b) trosglwyddo'r wybodaeth ofynnol i'r derbynnydd enwebedig o leiaf unwaith ym mhob cyfnod o ddeng munud tra bydd y cwch hwnnw ar y môr.

Eithriad

4. Nid yw erthygl 3 yn gymwys i gwch pysgota Prydeinig—

(a) nad yw'n cyflawni unrhyw weithrediad pysgota yng Nghymru mewn perthynas â chregyn bylchog; a

(b) y mae pob llusgrwyd cregyn bylchog sydd wedi ei chysylltu â'r cwch hwnnw wedi ei stowio a'i diogelu y tu allan i'r dŵr.

Yr Wybodaeth Ofynnol

5. Yr wybodaeth ofynnol yw—

(a) y llythrennau porthladd a'r rhif porthladd sy'n ymwneud â'r cwch pysgota Prydeinig sy'n trosglwyddo'r wybodaeth ofynnol;

(b) safle daearyddol diweddaraf y cwch hwnnw gan ddefnyddio cyfesurynnau lledred a hydred ar yr WGS 84, gyda chyfeiliornad safle o lai na 10 metr;

(c) y dyddiad a'r amser pan bennwyd safle daearyddol y cwch hwnnw; a

(d) cyflymder a llwybr y cwch hwnnw y pryd hynny.

(**4**) O.S. 1993/3138. Diwygiwyd y diffiniadau o "port letters" a "port number" yn rheoliad 1 o O.S. 1993/3138 gan O.S. 1999/3206, rheoliadau 2 a 3(a) a (d). Mae diwygiadau eraill i reoliad 1 o O.S. 1993/3138 nad ydynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.